OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 109 (Cy. 9)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau") sy'n gwneud darpariaeth o ran y cyffuriau, y meddyginiaethau neu'r sylweddau eraill y caniateir eu harchebu ar gyfer cleifion wrth ddarparu gwasanaethau meddygol o dan gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn ystyr adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i'r tabl yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig) sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau pan ganiateir archebu rhai cyffuriau a meddyginiaethau a bennir yng ngholofn 1 o'r tabl ar gyfer y categori o gleifion a ddisgrifir yng ngholofn 2 o'r tabl at y diben a bennir yng ngholofn 3 o'r tabl. Mae gwall teipograffyddol yn y pennawd i'r Atodlen wedi ei gywiro ac mae'r cofnod yn y tabl sy'n ymwneud â rhai cyffuriau penodedig y caniateir eu harchebu ar gyfer trin camweithredu ymgodol wedi ei ddiwygio er mwyn egluro y caniateir archebu unrhyw gyffur o'r fath hefyd ar gyfer unrhyw glaf at ddiben trin cyflwr meddygol, ac eithrio camweithredu ymgodol, y mae'r cyffur a archebir mewn cysylltiad ag ef wedi cael awdurdodiad marchnata'r DU neu'r UE ar gyfer trin y cyflwr hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 109 (Cy. 9)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Ionawr 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *23 Ionawr 2014* |
| *Yn dod i rym* | *14 Chwefror 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 46(2), 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) (Diwygio) 2014 a deuant i rym ar 14 Chwefror 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau Etc.) (Cymru) 2004

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau

(**1**) 2006 p.42.

Etc.) (Cymru) 2004(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 (cyffuriau neu feddyginiaethau i'w harchebu o dan amgylchiadau penodol yn unig)—

(a) yn y pennawd i'r Atodlen, yn lle "on" rhodder "or";

(b) yng ngholofn 1 o'r tabl (*cyffuriau*), ar gyfer trin camweithredu ymgodol, hepgorer—

(i) "(Caverject), (MUSE), (Viridal)",

(ii) "(Uprima)",

(iii) "(Erecnos)" (yn y naill le a'r llall lle y mae'n ymddangos),

(iv) "(Viagra)",

(v) "(Cialis)", a

(vi) "(Levitra)";

(c) yng ngholofn 2 o'r tabl (*claf*)—

(i) ar ddechrau'r cofnod sy'n ymwneud â chyffuriau ar gyfer trin camweithredu ymgodol, mewnosoder "(1) The following patients with erectile dysfunction—", a

(ii) ar ddiwedd paragraff (g) o'r cofnod hwnnw, mewnosoder—";

(2) Any patient"; a

(d) yng ngholofn 3 (*cyflwr*), gyferbyn â "(2) Any patient" yng ngholofn 2, mewnosoder y geiriau "Treatment of a condition other than erectile dysfunction, in respect of which the drug ordered is in receipt of a UK or EU marketing authorisation for the treatment of that condition".

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

20 Ionawr 2014

(**1**) O.S. 2004/1022 (Cy.119); mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu diwygio gan O.S. 2005/366 (Cy.32), O.S. 2009/1977 (Cy.176), O.S. 2009/1838 (Cy.166), O.S. 2011/1043, O.S. 2012/1916, ac O.S. 2013/683 (Cy.81).